cyngor cymru ar
alcohol a chyffuriau eraill
the welsh council on
alcohol and other drugs

Medi 2009

# At sylw: pwyllgor rheoli Urdd Gobaith Cymru

**Llythyr agored gan Gyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill ynglŷn â'r bwriad i ganiatáu gwerthu alcohol ar faes Eisteddfod yr Urdd**

1 Mae Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill yn gwrthwynebu bwriad yr Urdd i ganiatáu gwerthu alcohol ar faes Eisteddfod yr Urdd ac yn argymell y dylai'r Urdd ddileu'r bwriad ar unwaith.

2 Mae'r gwrthwynebiad yn seiliedig ar y ffaith mai Gŵyl a gynhelir ar gyfer plant a phobl ifanc ydyw. Prin fod angen eich atgoffa bod y mwyafrif mawr o gystadleuwyr a'u cyfeillion o dan oed yfed.

3 Gofynnwn i'r Urdd gydnabod bod yna linell na ddylid ei chroesi parthed plant a phobl ifanc a'u perthynas ag alcohol, ac i anfon neges i aelodau, eu rhieni a'r genedl nad yw'r Urdd, fel mudiad cyfrifol plant a phobl ifanc, yn barod i groesi'r llinell honno. Mae'n llinell a dynnwyd ar sail tystiolaeth feddygol a chymdeithasol sy'n dod yn gynyddol amlwg yma yng Nghymru ac ar draws y byd "bod gohirio'r oed mae plant yn cael eu cyflwyno i alcohol a chyfyngu ar yr hyn a yfir gan bobl ifanc yn debygol o hybu eu hiechyd a'u ffyniant", (Institute of Health and Society, 2008). Mae'n ffaith frawychus bod plant Cymru yn yr oed 11-15 yn defnyddio mwy o alcohol na phlant o'r un oedran yn yr un wlad arall yn Ewrop. Mae hyn yn amharu ar eu hiechyd, eu rhoi nhw mewn peryglon o bob math ac yn difrodi eu gobeithion am y dyfodol. Mae hyn yn hollol groes i amcanion a bwriadau clodwiw'r Urdd.

4 Dylai'r Urdd, fel mudiad sy'n derbyn arian cyhoeddus, weithredu i gadarnhau polisïau'r Cynulliad ar iechyd a ffitrwydd. Rydym yn galw ar yr Urdd i gydymffurfio â pholisi Cadw'n Heini'r Cynulliad. Mae sylw mawr a buddsoddiad sylweddol mewn gwahanol ymgyrchoedd gan y Cyngor Chwaraeon a Her Iechyd Cymru er enghraifft, i annog pobl i gadw'n heini ac i fyw'n iach. Mae'r hyn mae'r Urdd yn ei fwriadu yn tanseilio hyn trwy gadarnhau arferion, megis yfed alcohol, sy'n groes i'r nod o hyrwyddo iechyd a lles. 'Does neb nad yw'n ymwybodol o les plant yn amau bod gwir angen cael plant (ac oedolion) i newid eu patrwm byw, a'u cael i fwyta'n iach a diogelu eu hiechyd. Beth yw cyfiawnhad yr Urdd dros danseilio polisi cyhoeddus?

5 Gellid dweud yr un peth am yr angen i'r Urdd gefnogi polisïau gwrthdlodi'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn trafod LCO (Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol) fydd yn rhoi grym statudol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiddymu tlodi plant. Os oes unrhyw beth yn cyfrannu'n sylweddol at dlodi teuluol, ac felly tlodi plant, dibyniaeth ar alcohol yw hynny.

6 Dadleuir bod yfed alcohol yn gyfrifoldeb i'r unigolyn ond bydd caniatáu alcohol ar y maes yn anfon neges bwerus i ieuenctid a phlant ac felly yn dylanwadu ar eraill. Bydd yn cadarnhau'r neges na all rhieni Cymru na'i hoedolion ifanc, yn nhyb yr Urdd, fwynhau Gŵyl na Hamdden heb orfod cael cyfle i yfed alcohol. Ar hyn o bryd mae'r Urdd yn gosod esiampl wych o barch tuag at y gorau a'r hyn sydd yn ddyrchafol yn ein diwylliant a'n gobeithion fel cenedl drwy beidio ag ymwneud mewn unrhyw ffordd ag alcohol. Paham cymryd y cam gwag hwn a darnio'r fath osodiad cadarnhaol?

7 Os yw oedolion a rhieni am gael y cyfle i yfed alcohol onid oes digon o fannau trwyddedig eisoes yn bodoli yn nalgylch pob Eisteddfod? Ac os yw mor bwysig â hynny iddynt fel na allant ddygymod â bod heb ddiod alcoholaidd ar Faes yr Eisteddfod beth y mae hyn yn ei ddweud wrth ein plant am y ddibyniaeth seicolegol sydd gennym fel oedolion ar alcohol? Onid yw'n rhesymol i ofyn i'r oedolion a'r rhieni hynny sy'n gwneud penderfyniadau ym mhwyll-gorau'r Urdd - o bawb - sefyll o blaid egwyddorion a nodau'r Urdd a gosod esiampl well?

8 Pe symudid ymlaen gyda'r bwriad i werthu alcohol ar faes yr Eisteddfod, ni fyddai na pharch na sylw yn cael ei roi gan ddisgyblion i unrhyw raglen iechyd/cymdeithasol a drefnir fel rhan o gwricwlwm ysgol fydd yn "addysgu" am beryglon alcohol. Y cwestiwn amlwg ac anodd i'r athro fyddai – "Os ydi alcohol mor fygythiol i bobl ifanc yn arbennig, pam felly ei fod ar gael yn Eisteddfod yr Urdd?"

**9** Mae'r mater hwn wedi ysgogi trafodaeth dros y misoedd diwethaf. Mae'n achos pryder, sut bynnag, mai mudiad ieuenctid sydd wedi codi'r testun, gan fod problem goryfed alcohol mor ddifrifol ymhlith y genhedlaeth iau. Byddai gwerthu alcohol gyda bwyd ar faes yr Eisteddfod yn caniatáu plant 16-17 oed i yfed gwin, cwrw a seidr yn gyfreithlon gan roi pwysau ychwanegol ar athrawon a gwirfoddolwyr sy'n arolygu'r plant rheini. Dylid cofio hefyd, nad oes bellach "trwydded i werthu alcohol gyda bwyd" gan mai "trwydded i werthu alcohol" ydyw.

**10** Mae prif enwadau Cristnogol Cymru, sy'n cynrychioli dros 75,000 o aelodau a phlant – yn eu plith miloedd di-ri o gefnogwyr a gweithwyr selog yr Urdd a'i Eisteddfod – yn gofyn i'r Urdd newid ei feddwl. Ategwyd yr alwad gan unigolion blaenllaw fel Archesgob Cymru, y Parchedicaf Ddr Barry Morgan, aelodau o Gyngor Aml-ffydd Cymru, Y Barnwr Michael Farmer a'r Gwir Anrh. Dafydd Wigley.

**11** Dylai'r Urdd wyrdroi'r penderfyniad ar sail ei bolisi Diogelwch Plant. Os bwriedir caniatáu yfed alcohol ar y maes yna bydd yr Urdd yn hwyluso'r cyfle i oedolion sydd â gofal dros blant gymryd cyffur sy'n gallu effeithio'n andwyol ar y gallu i wneud penderfyniadau ac i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd annisgwyl.

**12** ''Rydym yn tynnu eich sylw at bolisi'r Urdd ei hun: *Mae staff a gwirfoddolwyr yn y sefydliad hwn yn derbyn ac yn cydnabod eu cyfrifoldebau i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n gallu peri niwed i blant. Mae'n rhaid i ni gyd ofalu nad yw ein hymddygiad yn achosi pryder, nac mewn perygl o gael ei gamddehongli.*

**13** Mae'n amlwg, yn ôl y pryderon a godwyd yn y drafodaeth gyhoeddus ar y mater hwn, y gallai gwerthu alcohol ar faes yr Eisteddfod fod yn ymddygiad y gellid ei gamddehongli gan blant fel cymeradwyaeth ac anogaeth i ddefnyddio alcohol.

**14** Ar y llaw arall, mae yma gyfle i'r Urdd ddatblygu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n gallu peri niwed i blant, *trwy ddangos arweiniad cadarn a dewr ar broblem gymdeithasol fawr sydd bellach yn troi'n argyfwng gwirioneddol ymhlith ein pobl ifanc*. Oherwydd y parch eithriadol sy'n perthyn i'r mudiad, ei rwydwaith o aelwydydd a changhennau, a'i statws arbennig mewn ysgolion, mae'r Urdd mewn safle unigryw i helpu diogelu iechyd meddyliol, corfforol ac ysbrydol ein plant.

**15** Byddai newid meddwl ar y mater hwn yn anfon y neges i blant a phobl ifanc ei bod hi'n bosib mwynhau cyffro a bwrlwm Eisteddfod yr Urdd (ac unrhyw weithgarwch arall) heb alcohol. Ond byddai hefyd yn anfon y neges i'r genedl bod Urdd Gobaith Cymru yn fudiad cyfrifol sy'n rhoi lles plant a phobl ifanc o flaen popeth arall.

**16** Credwn y byddai hynny'n cael ei groesawu gan y mwyafrif o gefnogwyr yr Urdd a'r bobl hynny sy'n poeni bod bwriad gwreiddiol y Pwyllgor Rheoli yn un niweidiol. Er lles y mudiad a'n plant, erfyniwn arnoch i newid eich meddwl.

Yn gywir iawn,

**WYNFORD ELLIS OWEN**
Prif Weithredwr

**DENZIL I JOHN**
Cadeirydd

## llyfryddiaeth


INSTITUTE OF HEALTH AND SOCIETY AT NEWCASTLE UNIVERSITY, (2008).
Impact of Alcohol Consumption on Young People: A Review of Reviews. *Commissioned by Department for Children, Schools and Families (DCSF)- Tender No: eor/sbu/2008/007*


**yn hyrwyddo dewis a byw bywyd cyfrifol**


Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill
58 Heol Richmond
Caerdydd CF24 3AT

T: 029 2049 3895
E: gwybodaeth@cyngorcymru.org.uk
www.cyngorcymru.org.uk



Prif weithredwr Wynford Ellis Owen
Elusen gofrestredig 501658